N.S
mo 65-71
73-76.

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

# YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1887. [RHIF 65.

CYNNWYSIAD.

| | TUD. |
|---|---|
| Gautama Bwda | 1 |
| Blwyddyn arall | 3 |
| Y Parch. David Oliver | 3 |
| Yr Amddifad | 5 |
| Y Gauaf | 7 |
| Sylfaenau | 8 |
| Newton a'i Ragredegwyr | 10 |
| Ymddyddan yn nghylch Llyfr Jonah | 12 |
| Nodynau Gwasgarog | 16 |
| Manion a Hanesion | 22 |
| Marwgofion | 23 |

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

# YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1887. [RHIF 65.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

## GAUTAMA BWDA.

### RHAGARWEINIOL.

MEWN ystyr, gallwn ddywedyd mai un grefydd sydd megys un môr, er ein bod yn ei dosparthu dan wahanol enwau; ac un yw y natur ddynol yn ei helfenau er cymmaint y mae yn amrywio yn ei dadblygiadau. Pan grewyd dyn, ac y gosodwyd ynddo anadl einioes, fel yr aeth yn enaid byw, ar lun a delw Duw y crewyd ef, ac os ydyw yn rhyw ystyr wedi dirywio, y mae etto yn parhau yn wrthddrych ei ofal a'i gariad. Y mae ei Yspryd Ef yn ymsymmud ar wyneb y dyfroedd, ac yn raddol ddwyn trefn allan o'r tryblith. Yn mhob man, fel y mae y cwmpawd yn iawn-gadw nod ei ymgyfeiriad, felly y mae dyn yn tueddbenu at ffynnonell ei darddiad. Cawn ef mewn llawer man yn ddigon anmherffaith, mae'n wir; ond er caniatau o honom hyny, cawn ei fod yn mhob man ar ol esgyn ychydig oddiwrth sefyllfa iselaf anwariaeth yn cydnabod yr Yspryd Anweledig uwchlaw iddo. Gall ei syniad fod yn anmherffaith, ond y mae y dyhead yn codi oddiar y reddf Ddwyfol sydd yn ei natur; y reddf felly yn rhodd y Duw perffaith, y syniad yn ffrwyth ymchwiliad y dyn anmherffaith.

Mae llinellau dadblygiad y natur grefyddol yn amrywio yn fawr mewn gwahanol wledydd, ond oll yn dwyn tystiolaeth i'r un elfenau gwreiddiol ac i'r un Yspryd tragwyddol sydd yn goruwchreoli. Mae Efe yn bresenol gyda'i blant yn mhob man ac ar bob amser, ond nid yw ei blant yn cael gafael ynddo Ef yn yr un modd nac i'r un graddau. Etto pa oleuni bynag a gânt, pa wirionedd bynag a ennillant, goleuni Duw a gwirionedd Duw fyddant. Ymddengys fel wedi ei roddi i wahanol genedloedd i ddadblygu gwahanol agweddau o'r gwirionedd,

ac felly i brofi eu hunain yn athrawon yn arwain ar hyd gwahanol linellau at Grist, y cyflawnder o bob gwirionedd a bywyd crefyddol. Yn rhinwedd y gwirionedd sydd ynddi yn unig y mae pob ffurf o grefydd yn gallu byw, yn rhinwedd y ffaith ei bod yn cyfarfod à rhyw angen yn y natur ddynol. Nid dyfais offeiriadol ydyw crefydd ddim, ond angen ein natur yw.

Y mae gwareiddiad a chrefydd y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg yn fan cyfarfyddiad ffrydiau ydynt wedi dylifo o wahanol gyfeiriadau. Dygwn yn ein cyfansoddiad olion tadogaeth llawer gwlad. Pan yn diolch i Rufain am ddeddf a threfn, i Groeg am athroniaeth a pherffeithiad y syniad o brydferthwch, ac i wlad Canaan am ein crefydd, nid ydym mewn modd yn y byd wedi gorphen adroddiad ein rhwymedigaethau. Nid yw yn iawn i ni ddibrisio dyddiau ein pethau bychain. Fyddem ni ddim y peth ydym oni bai India a China, a'r Aifft a Babilonia, &c. Gwir ein bod yn gweled llawer o wrthuni yn nghyfundrefnau crefyddol y gwledydd hyny heddyw. Nid yw y gwrthuni, fodd bynag, ond cysgod y methiantau i gyrhaedd y nod yr ymgeisid am dano; ac os yw y gwrthuni fwy neu lai wedi ei ystrydebu neu ei risialeiddio, etto y mae y grefydd yn byw nid o herwydd y gwrthuni, ond o herwydd y gwir sydd ynddi. Mae yna enaid o ddaioni yn rhywle sydd wedi bod yn feithriniad ysprydol i'w chofleidwyr. Pan fyddo cenedl yn gordyfu ei gwisg grefyddol yn ngoleuni gwybodaeth well, y mae yn gollwng y wisg hono i fyn'd, ac yn ceisio am un arall. Felly y gwnaeth paganiaid Ewrop yn ngoleuni gwell y Grefydd Gristonogol.

Ein syniad ni yw—Hollbresenoldeb y Bôd Mawr; ac y mae môr mawr ei ysprydolrwydd Ef yn cymmeryd i fewn yr oll o ddynoliaeth. Mae Efe yn bresenol yn mhob man yn yr un modd, fe allai, er nad i'r un graddau. Mae i'r môr ysprydol yma ei drai a'i lanw yn yr ymwybyddiaeth bersonol o'n tu ni, ac fe allai, yn dybynu yn rhywfodd ar yr ymwybyddiaeth—y mesur i bob dyn yn ol ei allu a'i barodrwydd i dderbyn, yn yr Iesu yn llawn a chyflawn.

Cawn felly dymhorau o lanw, tymhorau o adfywiad yn y bywyd ysprydol; neu yn y goleuni a'r dysgleirdeb a adlewyrchir,—weithiau o amgylch un dyn, weithiau o amgylch rhagor nag un. Gallwn nodi fel enghreifftiau, yr adfywiad dan Wesley a Whitfield yn Lloegr; dan Rowlands a Harries yn Nghymru; Knox yn Ysgotland; Luther a Chalfin yn yr Almaen; Zuingli yn ngwlad y Switzer; Giordano Bruno neu Savonarola yn yr Eidal; ac mewn cyfnodau cyn-Gristnogol cawn yn gyffelyb fod yspryd y blaenfynediant nid yn llanw graddol byth-gynnyddol, ond i bob ymddangosiad yn olynol yn drai a llanw, neu, o leiaf, yn rhyw ystyr wrth *fits and starts.*

Yr oedd tymhor Gautama Bwda yn ddiamheu yn dymhor rhyfeddol iawn, ac y mae'n naturiol i feddwl ei fod ef a'i dymhor yn ffitio i'w gilydd hyd drwch y blewyn. Yr oedd ef yn gynnyrch ei dymhor, fel o'r tu arall y bu ef yr elfen fwyaf nerthol o'r holl ddylanwadau i wneuthur ei dymhor y mwyaf hynod yn hanes yr India. Ond rhaid aros ar hyn yn awr a gadael hanes Gautama ei hunan i fod yn bwnc erthygl arall

ryw dro etto. Yn y cyfamser, os bydd rhywun am wybodaeth helaethach ymofyned am gyhoeddiadau y "Religious Tract Society," y "Non-Christian Religious System: Buddhism," by T. W. Rhys Davids, 2s. 6ch. Yr wyf yn meddwl mai Cardi yw Mr. Davids.

---

## BLWYDDYN ARALL.

Blwyddyn arall sydd yn gwawrio, Athraw anwyl, bydded ef
I ni'n flwyddyn o lafurio gyda gwaith ein Tad o'r Nef.

Blwyddyn arall o ymorphwys ar dy fynwes gynhes gu,
O ymddiried byth gynnyddol yn dy gariad Dwyfol di.

Blwyddyn arall o drugaredd a ffyddlondeb rhyfedd rhad,
O lawenydd, gras, brwdfrydedd, dan ddysgleirdeb gwyneb Tad.

Blwyddyn arall o gynnyddu yn ein clod, a'n mawl, a'n ffydd,
Blwyddyn arall etto i brofi'i bresenoldeb nos a dydd.

Blwyddyn arall o wasanaeth a thystiolaeth dros y gwir;
Blwyddyn arall o ddysgyblaeth at waith gwell y nefol dir.

Blwyddyn arall sydd yn gwawrio, Athraw anwyl, bydded ef,
Yma isod, ynte uchod, oll er clod y Tad o'r nef.

---

## Y PARCH. DAVID OLIVER.

Dyma enw nad yw yn adnabyddus iawn i'n darllenwyr, feddyliwn, er ei fod yn enw un a fu am dymhor yn weinidog yn Aberdar, ac, wedi hyny, yn y Gellionen. Yn mhlith y Bedyddwyr, fodd bynag, y bu'n gweinidogaethu gyntaf, ac yr ydym yn deall oddiwrth *Ystradiana, neu Hanes y Bedyddwyr yn Ystradyfodwg*, iddo gael ei fedydio yn mis Mai, 1785; y Parch. Maurice Jones, wedi hyny o Ferthyr, yn gweinyddu. Bedyddiwyd chwech gyda'u gilydd, a'r rhai hyn oeddynt y cyntaf a fedyddiwyd yn yr ardal. Crydd oedd Oliver wrth ei grefft, ac yn Aberdar y bu ar ei brentisiaeth. Cyn ei fedyddiad yr oedd yn hynod o wyllt, ac i fyny â phob math o gampiau drwg. Efe oedd *ringleader* yr ardal mewn pob drygioni. Yr oedd yn *fowler* mawr hefyd, ac yn cael ei gydnabod y saethwr goreu yn yr holl wlad.

Nid hir wedi ei fedyddiad y bu cyn cael ei gymhell i bregethu, ac yn fuan daeth y baich gweinidogaethol yn benaf ar ei ysgwyddau ef, a bu yn hynod o wasanaethgar. Yn 1791, cafodd alwad i fod yn weinidog yr eglwys (Ystradyfodwg). Ystyrid ef yn ddyn call a synwyrol, ac yn

ymresymwr da a dwfn. Bu yn ymdrechol, derbyniol, a llwyddiannus, am lawer o flynyddau. Yn y flwyddyn yr urddwyd ef ceir ef yn myned drosodd i Aberdar i bregethu yn achlysurol, a bedyddiodd amryw yno. Bu ef â llaw felly yn nghychwyniad achos y Bedyddwyr yn Aberdar. Yn 1798 cymmerodd ofal eglwys yn Merthyr, yn ychwanegol at ei ofal blaenorol. Ceir fod D. Oliver yn pregethu mewn dwy gymmanfa—Aberhafest yn 1799, oddiar Dad. viii. 34 ; a'r Gaerfawr yn 1800, oddiar Dad. vii. 17.

Tua'r amser hwn, yn ol *Ystradiana*, cyfnewidiodd Mr. Oliver yn ei farn ar bynciau crefyddol, er gofid blin i lawer. Dywedir mai rhyw ddwy hen wraig o'r enw Mari Dafydd, Glynmoch ; a Nani Shon Rosser, a gawsant allan ei fod yn gwyro oddiwrth farn yr eglwys, ac, yn eu tyb hwy, "yn dal athrawiaeth gyfeiliornus." Terfynodd ei gyssylltiad â'r eglwys tua'r flwyddyn 1802, a throdd ei wyneb at yr Undodiaid. Bu yn cyrchu, ar y cyntaf, i'r Drenewydd-yn-Notis, ac i'r Wig, ac yn ei fywgraffiad yn *Ystradiana* fe'i cyhuddir o gymmeryd trawsfeddiant o gapel y Wig. Gellir barnu oddiwrth yr un awdurdod fod y capel wedi ei adeiladu gan y Parch. David Powell o'r Felinfoel, yr hwn a fu farw Chwefror 25, 1797, yn 40 oed. Dichon y gall rhai o'r brodyr roddi ychydig o hanes boreu yr eglwys yn y Wig.

Yr wyf yn meddwl mai yn 1803 y daeth Mr. Oliver yn weinidog i H.D.C., Aberdar. O leiaf yn Mai 14, 1803, y derbyniodd ei dâl cyntaf, a hyny y swm o £1 11s. A thybiwn iddo ymadael cyn diwedd 1806, gan y cawn ef yn derbyn ei dâl diweddaf yno Tachwedd 20, o'r flwyddyn hono, y swm o £2 9s. 6ch. Ceir taliad achlysurol o bum swllt iddo yn Awst 24, 1811, ond nid oedd yn weinidog ar yr amser hwn.

Yn 1804 y bu farw y Parch. Josiah Rees, Gellionen,* wedi hyny bu ei fab y Parch. Thomas Rees yn gwasanaethu am tua blwyddyn. Pa mor fuan wedi'n y daeth y Parch. D. Oliver yno nid ydym yn gwybod, ac ymddengys hanes yr adeg hon yn y Gellionen yn dra thywyll, fel nas gwyddys pa un a fu efe yno ddeg neu bedair ar ddeg o flynyddau. Os dechreuodd y Parch. John James yno yn 1816, nid yw yn debyg iddo fod yno yn llawn deg. Credwn iddo ymadael ag Aberdar o herwydd bychander y gyflog, ond gallwn feddwl fod Mr. Evans yn awgrymu iddo orfod ymadael â'r Gellionen am nad oedd yn ddigon o Undodwr. Ganad byth am hyny, mae'n amlwg iddo fod unwaith yn meddu cryn lawer o ddylanwad yn yr enwad. Yn ei adroddiad am ei daith genadol yn Nghymru (Gweler Mon. Rep., 1811, p. 687), fe ddywed y Parch. Mr. Lyons fel hyn :—"The people of this congregation (Gellionen), and neighbourhood, are greatly indebted to the labours of the late Rev. Josiah Rees for the enlarged and honourable views which they now entertain respecting the Supreme Being, and the principal doctrines of the Christian Religion. They are now zealous Unitarians, and Mr. Oliver, whose name as a missionary has frequently appeared in the Reports of the Unitarian Fund, is their minister."

---

* Gweler Hanes Gellionen, YMOFYNYDD, 1873, gan y Parch. J. E. Gweler hefyd YMOFYNYDD, 1854, tud. 59.

Carem yn fawr gael ychydig o hanes blynyddoedd diweddaf Mr. Oliver. Deallwn fod perthynasau iddo hyd heddyw yn nghymmydogaeth Clydach, ac ni ddylai fod yn anhawdd cael o leiaf amseriad a lle ei farwolaeth, yn nghyd â'i oedran. A fydd rhywun o ardal y Gellionen cystal â chymmeryd y mater hwn mewn llaw, fel ag i gwblhau yr hyn sydd ddiffygiol yn y sylwadau uchod.

T.C.U.

---

## YR AMDDIFAD.

Mae olwyn amgylchiadau wedi peru i gortynau fy mhreswylfod gael eu sicrhau yn y lle hwn. Pentref gwledig ydyw, yn sefyll ar dipyn o ucheldir, yn un o siroedd deheuol Cymru. Ar yr ochr ogleddol i ni mae mynydd bànog, cerrygog, yr hwn a ddyrchafa ei glogwyn i'n cysgodi ni rhag llawer storom ddig, ac i feddalhau ychydig o'r gwynt deifiol sydd yn angeu i lawer o weiniaid y lle. Mae y mynydd hwn yn gwisgo agwedd fwy deniadol yn awr nâ chynt. Mae llawer i weithiwr diflin, ar ol gwaith a phwys y dydd, wedi yspeilio ei gorff o'r hamdden oedd yn angen arno, er ceisio digarregu rhyw gornel bychan o'r tir hwn ag mae Duw wedi ei fwriadu i fod yn eiddo cyffredin, ac y mae wedi llwyddo i droi gwyneb garw, ysgythrog, yr hen fynydd yn erddi ffrwythlon, paradwysaidd yr olwg arnynt, ac y mae ein pentref bychan, yn lle bod yn lle anniddig at drugaredd gwynt a gwlaw, wedi dyfod yn llanerch dlos ac yn gyrchfan dewisol y gymmydogaeth. Mae y trigolion hefyd, gyda chwrs y blynyddoedd, wedi dyfod yn fwy gwâr eu moesau, ac yn fwy duwiol eu hanian, i'r hyn oeddent ryw ugain mlynedd yn ol. Ymladd ceiliogod, rhedeg, ymgodymu—ïe, ac ymladd gwaedlyd rhwng goreugwyr y lle—dyna oeddynt ddyfyr gampau y trigolion yr amser hwnw; ac mae ambell i hen bererin gwargam, sydd wedi goroesi stormydd blinion wyth deg o auafau, yn dangos gyda balchder y fan lle y byddid yn "beito" teirw, ac yn ymgyfarfod brydnawnau Sul i drin materion yr wythnos flaenorol. Ond diolch i ddylanwadau gwareiddiol dysg, mae annedd-dai gwychion a chapeli destlus yn sefyll ar y manau hyny erbyn heddyw, ac mae y plant yn ateb amcan eu bodolaeth yn amgenach nâ'u teidiau.

Undonol, hytrach, yw cwrs bywyd yma; ond yn awr ac yn y man, mae rhyw ddygwyddiad anarferol yn creu ychydig gyffro, ac yna, teyrnasa yr un tawelwch drachefn dros ein cyfundeb. Fy amcan, wrth ddechreu yr ysgrif hon, oedd adrodd helynt a ddaeth o fewn cylch fy mhrofiad ychydig amser yn ol. Un noson ddryc-hinog yn y gauaf, ni waeth pa flwyddyn, yr oeddwn yn eistedd yn y ty ger y tân ar ol gwaith y dydd, ac yn gwrando ar y storom yn rhuo y tu allan—un o'r ystormydd dinystriol hyny sydd yn ymweled â'n cyffiniau unwaith mewn oes. Nid oedd dim i'w glywed ond rhuad cwynfanus y gwynt, a'r gwlaw a'r cesair yn curo yn erbyn y ffenestr, nes y credwn fod y

cyfan yn myned yn ddrylliau. Yr oeddwn yn diolch am dy i ymlochesu rhag y dymhestl, ac yn gobeithio nad oedd un ymdeithydd blin wedi ei ddal ar y fath noson enbyd, yn mhell o'i dref, gan y credwn na fuasai fawr gobaith am ei einioes mewn storm mor rhyferthwyol. Yno yr eisteddwn mewn math o freuddwyd effro, yn cael fy aflonyddu yn awr ac eilwaith gan chwyth gryfach nag arferol; ac yna, suddwn yn ol i'm myfyrdod ger y tân. Ond weithiau, meddyliwn y clywn ryw furmur aneglur yn cael ei chludo ataf ar edyn y gwynt—nis gwyddwn yn iawn pa beth i'w wneyd o honi. Tybiwn, weithiau, mai'r gwynt oedd, bryd arall mai ochenaid neu gŵyn floesg rhywun mewn cyfyngder oedd. Clustfeiniais; clywn hi wed'yn yn gryfach. Agorais y drws, sylldremais allan i'r nos a'r caddug tew, ond gwyddwn na allwn ganfod dim ond y duwch mwyaf; ond ar orig fer yn nghrygni'r gwynt, clywn y gri ddolefus bron yn fy ymyl. Gwaeddais, ond dim un ateb. Anturiais allan, ceisiais dreiddio trwy y gwyll, estynais allan fy nwylaw i gael gwybod a allaswn gyffwrdd â rhywbeth yn y tywyllwch, ond y cyfan yn ofer. Penderfynais fyned yn ol i'r ty, gan dybied nad oedd y swn a glywais ond cri y gwynt; ond cyn i mi braidd roddi y cam cyntaf, tarawodd fy nhroed wrth rywbeth nas gwyddwn beth. Plygais, a cheisiais balfalu dan fy nhraed, ac yn fuan, cefais afael yn nghorff gwlyb rhyw blentyn wedi colli ei ffordd yn y storom, ac wedi rhynu bron yn yr oerfel; ac yno yr oedd wedi syrthio, yn analluog i fyned yn mhellach. Codais ef yn fy mreichiau, a chariais ef i'r ty. Wedi diosg oddiamdano y bratiau gwlybion oeddynt ond hanner cuddio ei noethni, a'i wneyd mor gyssurus ag y medrwn, adroddodd i mi ychydig o'i hanes:—

"Yr wyf yn byw," ebe fe, "yn y ty o dan gysgod y bont fawr sydd yn croesi'r afon. 'Dyw ein ty ni ddim yn dy da iawn, am fod y ffenestri wedi tori, ac mae tyllau hefyd yn y to; a phan mae'n bwrw gwlaw, fel mae heddyw, mae'r llawr i gyd yn sarn, ac mae'r gwynt yn chwythu i'r cornel bach lle'r wy' I yn arfer cysgu'r nos, nes mae fy nannedd yn rhincian wrth eu gilydd. 'Does gyda ni ddim gwely yn y ty—ddim 'nawr wedi i mam farw, 'Rwy'n caru mam, a phan b'wy' I ambell noson yn y cornel yn oer a gwlyb, ac yn ffaelu cysgu, tybiaf ei gweled yn d'od ataf, ac yn tynu ei llaw yn dyner dros fy ngwallt, ac yn erchi i mi fod yn fachgen da; ond pan b'wy' I yn estyn fy llaw i geisio cael gafael ynddi, mae yn cilio ac yn diflanu o'r golwg. Dim ond 'nhad a finau sydd yn y ty 'nawr. 'Rwy'n caru 'nhad hefyd oddieithr pan mae'n d'od adref yn feddw, ac yn fy nghuro I. 'Dyw 'nhad ddim fel mam—yn gofalu am danaf, ac yn rhoi bwyd i mi pan fyddai eisieu arnaf, hyd y nod pe heb ddim ei hunan. 'Nawr, pan fydd 'nhad yn feddw yn y dafarn, 'rwy' I yn gorfod bod yn y ty, os ca I ddrws agored, heb dân ac heb fwyd, a llawer nos yn gorfod gorwedd lle ca I gysgod. Neithiwr ac echnos, yr oedd y drws yn nghlo, a buais yn cysgu wrth dalcen y ty mawr yna sydd ar waelod y pentref, a boreu heddyw, yr oeddwn yn teimlo poen yn fy mhen, ac yr oedd fy nghluniau yn oer a stiff, a fy nwylaw yn mron â fferu. Ceisiais gerdded ychydig o amgylch i gael fy ngwres, ond medyliwn fod y coed a'r tai yn

troi ac yn troi, nes yr oeddwn bron ffaelu sefyll ar fy nhraed. Dyna waith ges i ymgripian i'r ty, ac wedi cyrhaedd yno, 'doedd yno ddim tân, a gwaeth nâ hyny, dim bwyd. O! a minau ar newynu. Buais drwy'r dydd yn ymlusgo ar hyd y lle yn chwilio am 'nhad, a phan oeddwn ar lan yn y cwm o dan gysgod y mynydd, daeth y storom ar fy ngwarthaf. Nis gwn pa fodd y gellais dd'od hyd yma: 'dwy' I ddim yn cofio; ond 'rwy'n cofio pan oeddwn gyferbyn â'ch ty, tarawodd fy nhroed wrth garreg, a syrthiais i'r ddaear. Gwelwch, Syr, mae bys fy nhroed yn gwaedu, ac mae fy ewin wedi hollti; ac oni b'ai i chwi dd'od ataf a'm cario i'r ty, buaswn yn ddiamheu wedi marw erbyn hyn. Ac O! Syr, rwy'n credu, weithiau, y carwn farw, a myned lle mae mam."

Boreu dranoeth, hebryngais ef adref, os yw y fath le yn teilyngu yr enw, "cartref," a chefais fod ei stori yn wir. Ac Ow! wrth weled y fath dlodi—y fath angen a chaledi wedi eu pentyru ar blentyn mor dyner ac egwan, nis gallwn lai nâ thywallt deigryn, a meddwl am y cannoedd, dichon, o'm cyd-ddynion a ddygwyddent fod mewn cyffelyb amgylchiadau. Byth wedi hyny, yr wyf wedi cymmeryd dyddordeb yn hanes y plentyn uchod, ond mae yn flin dweyd, tolciog yw hi wedi bod arno lawer pryd. Elai ei gyflwr yn waeth, nes o'r diwedd, pan oedd ei dynghed wedi myned yn annyoddefol, daeth perthynas garedig fel angel tosturiol heibio iddo, a chymmerodd ef gyda hi, gan ddarparu cartref clyd a digonedd o gyssuron bywyd iddo; ac yno y mae yn awr.

Ddarllenydd, pan yn ymrolio yn dy gyflawnder, ac yn gloddesta ar dy ddanteithion, a wyt ti yn meddwl, weithiau, fod cannoedd hyd y nod yn dy ymyl di â newyn yn rhythu yn eu gwynebau, a phan fyddo mantell dew o eira yn gorchuddio bryn a bro, fod llawer i druan coesnoeth a throednoeth yn chwythu ei fysedd mewn rhyw gilfach, yn barod i roesawi angeu fel cenad tirion o wlad y gwynfyd i'w ryddhau ef oddiwrth helbulon a gofidiau'r ddaear. O'n llawnder a'n cyfoeth bydded i ni roddi elusen i bylu dannedd newyn yn ystod misoedd celyd y Gauaf yma, a chofiwn mai gwyn ei fyd a ystyria wrth y tlawd.

H——N.

---

## Y GAUAF.

Daeth y gauaf; dros y gwledydd
Cawn ei eira oer a'i ia;
Gyda'i dywydd du a'i stormydd,
Megys blin dinystriol bla,
Taenu difrod isod wna
Bellach beunydd.

Etto'r Cariad Dwyfol lywia
Yn y gauaf fel yr haf,
Harddwch daena, 'r Wawr a baentia,
'R coed a wisga â gwisg fraf,
Gwenwisg gauaf o law Naf,
Gwenwisg wenaf.

Pan fo'r storm yn chwerw chwythu,
Gwynt yn fain a rhew yn llym,
Ceir y teulu 'nawr yn nesu
Gylch y tân sy'n fawr ei rym,
Aelwyd cartref dedwydd im'
Yn gwresogi.

Ti, fy Nuw, 'r Hwn wyt yn rhoddi
Gauaf oer a hafaidd hin;
Tes dy gariad fo'n ein noddi,
Fo'n ein cadw fyth bob un,
Trwy oer auaf bywyd blin,
A gwnawn foli!

## SYLFAENAU.

Y mae sylfaenau adeilad allan o'r golwg, ac anfynych y sonir neu y meddylir am danynt; ond hwy ydynt y rhanau mwyaf pwysig, ac, ar rai prydiau, y mwyaf costus o'r adeilad. Mae gosod i lawr sylfaen ar waelod tywodlyd yn orchwyl anhawdd. Rhaid i'r sylfaen fod yn hollol gadarn ac ansymmudadwy. Os sudda i lawr y tipyn lleiaf, mae yr holl adeilad mewn perygl. Ond wedi iddi gael ei gosod unwaith yn ofalus ar y graig, nid oes achos i ni feddwl rhagor yn ei chylch. Dichon i'r tŷ sefyll mewn angen am ei adgyweirio, ond bydd i'w sylfaenau ofalu am danynt eu hunain.

Felly y mae gyda golwg ar gymmeriad. Y mae sylfaenau cymmeriad allan o'r golwg. Y maent yn gynnwysedig o'r argyhoeddiadau hyny sydd wedi eu cryfhau a'u cadarnhau trwy brofiad hirfaith, trwy arferion meddwl, sydd wedi treiddio i mewn, ac megys ymgymmysgu â bywyd dyddiol, ac ymddygiad dyddiol, ac felly, wedi eu sefydlu a'u cadarnhau fel sylfaenau ein cymmeriad. Anfynych y meddyliwn neu y siaradwn am danynt. Y maent yn gorwedd islaw wynebedd opiniwn, fel argyhoeddiadau sydd yn penderfynu yr olwg a gymmerwn ar bethau. Y mae sylfaenau cymmeriad nid yn unig allan o'r golwg, ond pan y maent wedi eu gosod i lawr yn ddyogel a chadarn trwy ymddygiad ac arferion da, nid ydynt yn gofyn eu newid neu eu hadgyweirio. Y mae y grediniaeth neu y syniadau yn ol y rhai y gweithredwn yn aros yn gadarn yn ngwyneb ystormydd opiniwn a threialon dyrus bywyd. Dyma beth yw gwerth sylfaenau.

Sylfaen crefydd Crist oedd ei argyhoeddiad parhaus ei fod ef a'i Dad Nefol yn un—un mewn cydymdeimlad, un mewn amcan; a thra yr oedd ef yn cyflawnu ewyllys ei Dduw, yr oedd yn derbyn ysprydoliaeth bob amser oddiwrtho. A darfu iddo gyfranu neu drosglwyddo y teimlad a'r argyhoeddiad yma i'w ddysgyblion, gan weddio ar iddynt fod yn un â Duw, fel oedd Ef yn un â Duw, ac ar i'r Tad aros ynddynt hwy, fel oedd yn aros ynddo Ef. Y mae sylfaenau dwfn yn gorwedd mewn profiad—nid mewn gwrando yn unig, ond mewn cyflawnu. Gall dynion fod wedi eu llenwi neu eu meddiannu gan wybodaeth grefyddol wrth wrando ar bregethau yn nghylch credu, darllen llyfrau yn nghylch duwioldeb, nefoedd ac uffern, iechydwriaeth a'r farn; ond eled dyn allan i'r maesydd ar foreu haf i weled yr haul yn codi ar y byd dwyfol hwn o drefn a phrydferthwch, gwrandawed ar y trychfilod yn sibrwd eu mawl boreuol, ac ar y llawenydd annhraethadwy sydd yn y cylchleisio dros bigau yr adar mân, ac efallai y caiff un foment yn yr hon y gwel bresenoldeb Anfeidrol Gariad yn y byd. Bydd yr un cariad dedwydd hwnw, a chydnabyddiaeth ddiolchgar o Dduw yn fwy o werth nâ llyfrau gorlawn o ymresymiad. Neu, efallai yn oriau ei drallod a'i ofid, a'i golled a'i amddifadrwydd, siomedigaeth a digalondid, gall gael ei arwain i daflu ei hunan wrth draed Duw, a dywedyd, "Oh, fy Nhad, cyssura a chymhorth fi!" Bydd i'r gri hono o ddyfnder ei enaid ddwyn Duw yn nes ato na lluaws o bregethau. Neu yn awr profedigaeth,

gwendid, pechod, pan y mae y byd yn drech nag ef, gall anfon e'i enaid i fyny un erfyniad nerthol a thaer am nerth nad yw eiddo ei hunan. A phan y mae yn cael allan fod nerth yn cael ei roddi iddo, pan y mae y cyssur y mae yn sefyll mewn angen am dano yn dyfod i lawr i'w enaid mor dyner a gwlith y prydnawn, pan y mae gallu uwchlaw iddo ef ei hunan yn peru iddo sefyll yn gadarn heddyw lle yr oedd yn methu ddoe—y mae yn gwybod, y pryd hwnw, fod sylweddoldeb mewn gweddi. Oriau dedwydd a chyssegredig ydynt y rhai hyn, yn y rhai y mae dyn yn dyfod mor agos i Dduw ag i fod yn alluog i ddywedyd, "Credais ynddo Ef unwaith, ond yn awr yr wyf yn ei adwaen Ef." Y mae y fath brofiadau o bresenoldeb Dwyfol yn yr enaid yn mhob oes wedi bod yn sylfaen sylweddol a chadarn o wir grefydd. Hebddynt, buasai ffydd yn Nuw, anfarwoldeb a thragwyddoldeb, wedi marw allan o'r byd er ys llawer dydd. Ond yn mhob cenedl ac oes, o dan bob enwau a ffurfiau crefyddol, y mae y pur ei galon wedi gweled gwyneb Duw.

Nid unrhyw ddirgelwch mewn Cristionogaeth, neu unrhyw athrawiaethau dyrys a thywyll yn perthyn iddi, sydd wedi gorchfygu y byd; ond ei gallu i ddwyn Duw yn agos i bob un o honom fel ein cyfaill goreu; yn herwydd ei bod yn gwneyd bywyd—pob bywyd yn gyflawn o ddysgleirdeb; yn herwydd ei bod yn gwneyd ein dyledswyddau yn esmwyth a'n gwaith yn ysgafn; yn herwydd ei bod yn dwyn tangnefedd i ni yn ein hunigedd a gobaith mewn anobaith; yn herwydd ei bod yn dadgaddio yn amlwg i ni gariad maddeugar Duw, pan ydym fwyaf ymwybodol o'n hanmherffeithrwydd a'n pechod, ac yn dangos ac yn profi i ni fod llawenydd yn mhresenoldeb angylion Duw drosom, pa bryd bynag ydym yn edifarhau. Dyma hefyd yw achos mawr daioni dynol—golwg ar y daioni Dwyfol. Teimlwn ei fod yn beth hawdd i wneyd yr hyn sydd iawn, pan y mae gyda ni deimlad o gariad y Tad Nefol i'n calonogi. Pan y mae Duw yn ein caru, a phan deimlwn ei fod felly yn ein caru, yna, gwaith hawdd yw ei garu Ef a phawb o'i blant.

Un o'r prif fendithion a ddygodd yr Iesu i ddynolryw ydyw, ei fod wedi dwyn i'r bywyd dyddiol y ffydd fawr a chadarn hono yn y Tad Mawr, y rhai a welodd yr eneidiau mwyaf ac uchaf fuont o'i flaen yn mhell draw fel gwreichionen o oleuni yn tori allan drwy wybrenau ystormus coelgrefydd a dychryn. Y mae yn ein dysgu i fod yn ddiofal am bob peth allanol, neu i omedd pryderu yn eu cylch, ac i ymddiried yn Nuw, yr Hwn sydd yn gwybod cyn gofyn o honom gandlo pa beth sydd yn angen arnom. Dywed wrthym, "Ymddiriedwch yn mhob peth, ac yn ngwyneb pob peth yn eich Tad. Pan y mae genych i siarad, ymddiriedwch ynddo Ef am eich geiriau, oblegyd nid chwi sydd yn llefaru, ond ei Ysbryd Ef sydd yn llefaru ynoch." Pan fyddo drygioni yn amlhau, a thwyll ac anwiredd yn ymddangos i fuddugoliaethu; pan fyddo dynion twyllodrus a chyfrwys yn llwyd lo, a dynion da yn cael eu gorchfygu, "Nac ofna, braidd bychan," meddai, "oblegyd rhyngodd bodd i'r Tad roddi i chwi y deyrnas." "Pob planigyn a'r ni phlanodd fy Nhad a ddiwreiddir."

Nid yw cred ddansoddol neu grediniaeth yn unig, heb ei bod yn gwneyd i fyny un rhan o'r bywyd, ddim yn sylfaenol. Dim ond y gwirioneddau hyny ellir eu byw ydynt sylfaenau daioni a dedwyddwch dynol. Y mae damcaniaeth ac athrawiaeth yn bethau o'r goreu i gwblhau y ty, ond nid ydynt yn gwneyd sylfaen gadarn a sylweddol iddo. Gweithred yw goleuni arweiniol dyn. Caiff pwy bynag sydd yn gwneuthur ewyllys Duw wybod am yr athrawiaeth. Os oes yr un amheuaeth yn eich meddwl yn nghylch gwirionedd Cristionogaeth, profwch hi wrth ymddygiad. Darllenwch y bregeth ar y mynydd, ac ymdrechwch ufuddhau i'w gorchymynion. Ewch i ystafell eich calon i weddio. Rhoddwch yn rhad, rhoddwch yn haelionus o'ch amser a'ch eiddo yn gystal â'ch cydymdeimlad, a gwelwch os na fydd i gydymdeimlad a chariad a chymhorth ereill ddyfod atoch yn y cyflawnder o hono. Byddwch yn gariadus i'r drwg ac i'r anniolchgar. Gwnewch eich goreu i fod o ryw les i'ch cyd-ddynion, ac ymddiriedwch yn Nuw i ofalu am eich angenion. Cerddwch bob dydd yn nghariad Duw a dyn; ac yna, cewch allan fod genych yn eich calonau gyfran o'r tangnefedd hwnw nad yw yn ngallu y byd hwn ei roddi nâ'i gymmeryd oddiarnoch.

(L.) J. F. C.

---

## NEWTON A'I RAGREDEGWYR.

Yn rhifyn Ionawr, 1886, rhoddwyd genym ychydig o hanes Copernic, Tycho Brahe, a Kepler, ac, yn awr, wele ni yn cymmeryd i sylw ein darllenwyr myfyrgar fraslun o hanes

GALILEO GALILEI (1564—1642),

am yr hwn y dywedir ei fod wedi agor llinell newydd. Gosododd y tri ereill y llyfr gerbron, daeth Galileo a'r ganwyll, a darfu i Newton â goleuni y ganwyll hono ddarllen y llyfr. Y tri blaenorol ddangosasant fudiadau y planedau, a Galileo ddangosodd wrth ba ddeddfau y llywodraethid y deddfau gan yni *(force)*; a Newton a ddangosodd sut y gallai y deddfau yma egluro y mudiadau a osodwyd allan mor amlwg gan Kepler. Yr oedd y tri cyntaf wedi dihyspyddu yr adnoddau oedd ganddynt, ac yr oedd angen dyfeisio y pelldrych, i gymmeryd y cam nesaf yn myd y darganfyddiadau. Yn nghyflawnder yr amser y gwnaethpwyd hyny; hyny yw, yn yr amser iawn, onid e'. Mae Proffeswr Stuart yn credu, po buasai'r *telescope* wedi ei ddarganfod yn flaenorol, na allasai Kepler ddim gwneuthur y darganfyddiadau a wnaeth. Ganwyd Galileo yn Pisa, y dyn a'r lle yn ateb eu gilydd, canys yno yr oedd y "tŵr oleddol," "the Leaning Tower of Pisa," oddiar yr hwn y gwnaeth Galileo lawer o'i brawfiadau. Yr oedd ei dad yn berchen ar ffortiwn fechan, ac felly, cafodd y gwr ieuanc y cyfleusdra i ddylyn ei efrydiaethau. Dygodd ei dad ef i fyny i fod yn feddyg, ond yr oedd

natur wedi ei dori allan i fod yn seryddwr a naturiaethwr. Ni fu'n hir cyn gweled gwrthuni athroniaeth Aristotle, yr hon a ddysgid y pryd hwnw yn y colegau; a phenderfynodd ymroddi i ddysgu deddfau natur yn erbyn ffug-athroniaeth yr oes. Dygodd hyny ef i wrthdarawiad â'r awdurdodau, a gorfu arno ffoi o Pisa; ond cyduabyddwyd ei athrylith mewn parth o'r Eidal, a chafodd ei bennodi yn athraw mewn Mesuroniaeth yn Mhrif Ysgol Padua (1592). Bu yn llwyddiannus iawn yma. Traddodai ei ddarlithiau yn yr Eidalaeg, sef, iaith y werin, yn lle yn Lladin, ac ystyrid hyny yn berfeiddgar iawn.

Yn 1609, clywodd fod un Janser wedi ffurfio offeryn i wneuthur pethau pell i ymddangos yn agos, ac yn union, fel fflach mellten, deallodd y *secret*, a dyfeisiodd y pellddrych (*telescope*). Dygodd welliantau mawrion arno o bryd i bryd, a pharotodd ar gyfer y darganfyddiadau mawrion oeddynt yn ymyl. Trodd ei offeryn tua'r wybren, a gwelodd fod wyneb y lleuad yn arw, fod ysmotiau ar yr haul, mae cynnulliad o sôr dirif oedd y llwybr llaethog, fod y seren Wener yn cyfnewid fel y lleuad, fod cylch (edrychai iddo ef fel adenydd) o amgylch Sadwrn, a bod gan Iau bedair o oleuadau. Mae yn anmhossibl dychymmygu y syndod a'r hyfrydwch a lanwodd fynwes yr athronydd, pan ganfyddodd fod gwahaniaeth rhwng ymddangosiad y nefoedd a'r hyn oedd.

Yn 1611, ar wahoddiad y Duc o Tuscany, dychwelodd i Pisa, ac yma y cyhoeddodd ei ddarganfyddiadau, gyda'r canlyniad iddo ddwyn ei hunan dan erledigaeth chwerw y rhai mewn awdurdod. Cyhoeddodd yr offeiriaid ef yn *heretic*, a bu mor wan a thynu ei eiriau yn ol. Mae yn amlwg nad beth oedd yn credu, nad oedd efe yn credu dim mewn gosod ei hunan yn aberth i'r fflamiau. Cafodd ei ddwyn i Rufain ac o flaen y barnwyr, ac yno a'r Beibl yn ei law, ac ar ei liniau, gorfu arno ddywedyd mai "cyfeiliornadau ac heresiau pechadurus" oedd yr hyn a ddysgasid ganddo o'r blaen, sef, fod y ddaear yn troi o amgylch i'r haul. Ond wrth godi, tarawodd ei droed yn erbyn y llawr, a dywedodd "E pur si muove"—troi mae hi o hyd! Ac am hyny, dedfrydwyd ef i garchar y Chwil-lys dros ei fywyd, a phob wythnos am dair blynedd gorfu iddo adrodd y saith Psalm edifeiriol. Bu yn dra dystaw am flynyddoedd wedi hyn, ond yn parhau i ddylyn ei efrydiaethau seryddol.

Yr oedd oleddiad Twr Pisa yn ffafriol iawn iddo wneuthur ei brawfiadau, gan ei fod yn ei alluogi i ollwng pethau dros yr ymyl, a'u gweled yn syrthio hyd y llawr; ac oddiwrth ei brawfiadau hyn y tynodd ei gasgliad, y gwna pob gwrthddrych syrthio i lawr gyda'r un cyflymdra oni bai fod rhywbeth yn rhwystro, yr hwn oedd yn groes i'r syniad cyffredin.

Cyn amser Galileo, credid y buasai carreg yn syrthio i'r ddaear yn gyflymach nâ phluen; a gwir hyny, ond y rheswm yw, am fod yr awyr yn rhwystr, ac y mae rhwystr yr awyr mewn cyfartaledd i'r arwynebedd. Dim ond symmud yr awyr i ffwrdd, cyrhaeddant y ddaear yr un foment. Yr oedd Aristotle rhyw 300 mlynedd cyn Crist wedi ysgrifenu llyfr, ac am fwy nâ 1700, nid oedd neb wedi beiddio amheu

ei osodiadau. Addysgai fod y ddaear yn sefydlog, a bod yr haul yn ymdroi o'i hamgylch. O herwydd hyn, yn fwy nag un rheswm Ysgrythyrol, y gorfu i Galileo oddef erledigaeth am ddywedyd fod y ddaear yn troi.

Mynai Aristotle ddweyd fod trymder ac ysgafnder yn briodoleddau perthynol i gyrff, y naill yn tueddu i lawr, a'r llall i fyny. Yr oedd carreg yn meddu y briodoledd o drymder, ac felly yn tueddu i lawr, ac awyr, ysgafnder, ac yn tueddu i fyny. Ond nid oedd gan Aristotle ddim syniad clir iawn am i fyny ac i waered. Dywedwyd gan Galileo fod hyd y nod awyr yn meddu pwysau, a phrofwyd hyny gan Torricelli. Mae awyr fel pob sylwedd arall yn drwm, ac yn tueddu at ganolbwynt y ddaear. Y mae awyr yn tueddu i fyny, o herwydd dylanwad cyrff ereill ydynt drymach. Pwysir awyr yn awr bob dydd genym yn ein *barometers*. Mae pob peth ar y ddaear yn meddu pwysau, hyny yw, yn tueddu at ganolbwynt y ddaear.

---

## YMDDYDDAN YN NGHYLCH LLYFR JONAH.

Yr oedd Mr. Jones yn credu yr hanes am ei fod yn y Beibl, a byddai mor rhwydd ganddo gredu fod Jonah wedi llyncu'r morfil, pe byddai awdurdod y Beibl dros hyny, ag oedd ganddo gredu fod y morfil wedi llyncu Jonah.

Myfyriwr 1.—Byddai yn hawddach genyf fi gredu peth rhesymol ar awdurdod y Beibl nâ pheth afresymol.

Diacon 1.—A allwn ni, bob amser, fod yn sicr pa beth sydd resymol? Dichon peth fod uwchlaw ein rheswm heb fod yn groes i'n rheswm, ac nid wyf yn credu mewn bod yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd, fel y mae rhai yn cymmeryd arnynt y dyddiau presenol.

Diacon 2.—Yr wyf finau yn credu y dylem ddefnyddio ein rheswm a phob gwybodaeth er ceisio deall yr hyn sydd wedi ei ysgrifenu. Nid oes dim morfilod yn Môr y Canoldir.

Mr. Jones.—Nid yw hyny yn un prawf nad allai Duw greu un at y pwrpas.

D. 2.—Os yn debyg i forfilod ereill, ni allai lyncu dim o faintioli mwy nag ysgadenyn.

Mr. J.—Ond fe allai Duw edrych at hyny hefyd.

M. 1.—Mae yn sicr nad ydym i gymmeryd pobpeth yn yr Ysgrythyr yn llythyrenol. Y llythyren sydd yn lladd, yr ysbryd sydd yn bywhau.

Mr. J.—Yr wyf finau yn addef y dylid cymmeryd rhai pethau yn gymhariaethol, ond ni ddylid gwneuthur gormod o reswm.

M. 1.—Nid wyf yn gweled pa niwed sydd o ddefnyddio rheswm, ac nid wyf yn gwybod pa beth gwell sydd genym nâ rheswm i'n helpu i ddeall y Beibl.

Mr. J.—Ni all rheswm ddeall pob peth, ac y mae yn rhaid credu y gair a'r dystiolaeth.

M. 1.—Yr oedd ein hathraw ni yn arfer dywedyd fod rhyw esponiwr yn tybied mai i dafarn yn dwyn arwydd y Morfil y daeth Jonah.

Mr. J.—O ïe, dyna duedd yr oes. Pa beth wed'yn, fod Jonah wedi ei daflu allan ar amser *stop tap*, efallai? A dyma beth elwir yn esponio y dyddiau presenol.

D. 1.—Y diffyg yw, fod rheswm mor gyfyng. Mae iddo ei gylch, bid sicr, ond sut mae penderfynu y cylch hwnw. Yr wyf fi yn foddlon cymmeryd rheswm o fewn ei gylch ei hun. Nid wyf fi am ddibrisio rheswm ond cofio hynyna.

D. 2.—A ydych chwi ddim yn meddwl y gallwn ni wneuthur mwy o chwareu teg à Llyfr Jonah trwy ei gymmeryd yn gymhariaethol neu ffigyrol, fel y dywedir?

Myfyriwr 2.—Mae llawer o esponio a chamesponio wedi bod ar Lyfr Jonah o bryd i bryd, ond ychydig, am a wn I, sydd yn edrych ar y llyfr oddiar y safle resymol.

D. 2.—Sut, heblaw trwy ddefnyddio ein rheswm, y gallwn ni wahaniaethu rhwng y llythyrenol a'r cymhariaethol? Ac os gallwn ni sicrhau gwell synwyr a gwell addysg trwy y naill ffordd na'r llall, pa'm na chawn ni ddewis y ffordd a ddyry i ni yr addysg a'r synwyr gwell?

M. 1.—Nid wyf fi yn gweled fawr addysg yn Llyfr Jonah yn ol yr esponiad cyffredin, o leiaf, ac mi garwn I gael esponiad gwell, os oes un i'w gael. Nid oes neb yn cymmeryd Dammegion Æsop yn llythyrenol na Dammegion yr Iesu, chwaith, ac nid yw neb yn meddwl yn llai am danynt oblegyd hyny.

M. 2.—Pan fyddo'r Iesu yn galw ei hun yn ddrws, yn ffordd, yn winwydden, nid oes neb am ei gymmeryd yn llythyrenol, a gwell genyf fi beidio ei gymmeryd yn llythyrenol pan y mae yn son am rai yn bwyta ei gnawd ac yfed ei waed, er fod y Pabyddion a'r Uchel Eglwyswyr yn dal mai yn llythyrenol yn unig y dylem ei gymmeryd yn y geiriau hyny.

D. 2.—Beth ydyw hanes Llyfr Jonah, a pha wedd y gallwn ni ei gymmeryd yn ddammegol.

D. 1.—Proffwyd oedd Jonah yn byw tuag amser yr ail Jeroboam (C.C. 785.)

D. 2.—Ond y mae yn amheus a wyddom ddim neu y nesaf i ddim am dano yn bersonol (2 Bren. xiv. 25); ac yr wyf yn barnu fod y Llyfr sydd yn dwyn ei enw wedi ei ysgrifenu lawer yn ddiweddarach.

Mr. J.—Yr ydych yn dystrywio gwerth y Llyfr i mi yn y fel yna. Yr ydych yn ei wneuthur yn Llyfr ffugiol yn lle un gwirioneddol. A mwy na hyny, beth sydd yn dyfod o bwnc Ysprydoliaeth ac o'r Beibl ei hunan wrth ei drin yn y fel yna?

Gweinidog.—Yr wyf yn cofio myfyriwr unwaith yn cylymu dilysrwydd a gwerth y Beibl i gyd wrth wirionedd hanesyddol Llyfr Daniel. Nid wyf yn barnu ei bod yn ddoeth i wneuthur hyny, ac etto ni wn I ddim beth i'w ddywedyd am duedd peth o'r ymddyddan presenol.

M. 1.—Mi allwn I feddwl nad yw gwerth Llyfr ddim yn dybynu cymmaint ar y ffaith pa un a allwn ni benderfynu ei awduraeth yn

gymmaint ag ar y gwirionedd a'r addysg sydd ynddo. Mae y gorchymyn "Na ladrata" yr un mor bwysig ac o'r un cymmaint gwerth nad pwy a'i ysgrifenodd. Mae yn seiliedig ar ddeddf dadblygiad goreu yr hiliogaeth. Duw sydd wedi gwneuthur fod rhinwedd a phurdeb, cariad ac ewyllys da, yn ffafriol i les mwyaf dyn, a hyny yn hollol annybynol ar y ffaith pa ddyn sydd wedi gwneuthur y darganfyddiad o hyny.

M. 2.—Mae rhai dynion yn gosod cyffelyb werth ar eiriau gwrthwynebwyr Job ag a osodant ar eiriau Job ei hunan.

M. 1.—Nid oes genyf fi'r un amheuaeth nad oes drwg mawr yn dyfod i'r Beibl oddiwrth y syniad eilunaddolgar a gyssylltir yn rhy gyffredin ag ef.

M. 2.—Ffwl, ïe ffwl pedair llythyren, yw y dyn a esyd yr un gwerth ar bennodau Llyfrau y Cronicl ag ar bennodau y Bregeth ar y Mynydd.

G.—Mae gwyr ieuainc yn caru bod yn frysiog ac yn tueddu i fod yn anystyriol ac eithafol. Edrychwch na fyddoch yn dwyn anmharch ar y Beibl.

D. 2.—Ni ddygir y Beibl i anmharch trwy gymmeryd golwg resymol arno.

M. 1.—Yr wyf finau'n meddwl na ddaw un anmharch i'r Beibl trwy ymchwiliad i'w hanes a'i darddiad. Y gwirionedd a saif ac a lwydda.

M. 2.—Mae Llyfr Jonah yn graig rhwystr a maen tramgwydd i ugeiniau o bobl ieuainc heddyw, tra y byddai o'i iawn ddarllen yn llawn addysg werthfawr. Ysgrifenwyd ef, wrth bob tebyg, tua 500 cyn Crist, gan ryw awdwr anadnabyddus, gyda'r dyben o ddysgu i blant Israel fod cariad yr Arglwydd yn estynedig hefyd at y paganiaid. Cyssylltir ystori ag enw Jonah, mab Amittai, er cyflwyno'r addysg bwysig yma. Teimlir gan Jonah, fod galw wedi ei osod arno i fyned i Ninefeh, a llefaru yn eu herbyn o herwydd eu drygioni (i. 1, 2).

D. 2.—Nid yw Jonah, fodd bynag, yn caru y neges nac yn foddlon myned.

M. 2.—Nid yw yn meddwl fod llawer o siawns iddo ef, Iuddew tlawd, i ddiwygio Ninefeh, prif ddinas y ddaear ar y pryd, ac nid ai. Ffodd oddiwrth ei ddyledswydd, ac yn ei ffoedigaeth y cawn hanes y pysgodyn mawr sydd wedi rhoi cymmaint o ofid i bobl dduwiol, a thrafferth i naturiaethwyr, y rhai ydynt wedi arfer darllen, fel hanes lythyrenol, yr hyn a ddylai yn amlwg gael ei gymmeryd yn gymhariaethol. Wedi hyny, cawn fod Jonah yn cael allan nad oes modd ffoi oddiwrth yr Arglwydd, ac nas gall efe ymwrthod â'r genadwri a osodwyd arno. Mae yn myned i Ninefeh, ac yn llefaru yn erbyn ei phechodau, fel y mae wedi ei orchymyn.

M. 1.—Ond fel ambell i bregethwr yn y dyddiau presenol, y mae yn ychwanegu at ei destyn heb orchymyn, ac yn dywedyd y dymchwelir y ddinas yn mhen deugain niwrnod, fel barn am ei phechod. (Cymharer i. 2, a iii. 4.)

D. 2.—Ac yn groes i'w ddysgwyliad, cyffröir y ddinas trwy ei bregethu, ac y mae edifeirwch cyffredin a diwygiad yn cymmeryd lle.

G.—Yr oedd Jonah yn ddigon trech pregethwr nâ fi.

D. 1.—Neu yr oedd y Ninifeaid yn fwy parod i argyhoeddiad nag yw ein pobl ni.

M. 2.—Y canlyniad, fodd bynag, yw, fod maddeuant Duw yn cael ei estyn i'r paganiaid hyn, a'r dynghed fygythiedig yn cael ei throi i'r neilldu.

D. 2.—Byddai yn naturiol i Jonah ymfalchio yn llwyddiant ei bregethu.

M. 2.—I'r gwrthwyneb yn hollol y mae. Wedi gweled ei broffwydoliaeth yn methu, mae Jonah yn anfoddloni ac yn digio yn ofnadwy wrth yr Arglwydd, ac fel y dywedwn ni, yn rhoi tipyn o'i feddwl iddo. "Oni ddywedais I hyn pan oeddwn etto yn fy ngwlad? Am hyny yr achubais flaen i ffoi i Tarsis; am y gwyddwn dy fod di yn Dduw graslawn," &c. (iv. 1, 2).

D. 2.—Ie'n wir, Jonah bach, a pha beth ddelai o'r pregethwyr o hiliogaeth Jonah heddyw, pe gwnelai'r Goruchaf gefnu wedi iddynt hwy fygwth? Mae yn werth i bob Jonah y dydd heddyw sylwi sut y darlunir Duw yn ceryddu'r caledwch a'r hunan-gariad a wnai ymhyfrydu i weled dinas yn cael ei dinystrio, yn hytrach na bod eu ceryddon hwy yn peidio cael eu cario allan. "Ti a dosturiaist wrth y cicaion, ni lafuriaist wrtho . . . ac oni arbedwn i Ninefeh, y ddinas fawr, yr hon y mae ynddi fwy na deuddeg myrdd o ddynion, y rhai ni wyddant ragor rhwng eu llaw ddeheu a'u llaw aswy, ac anifeiliaid lawer."

M. 2.—Mae hanes dymchweliad Ninefeh, a'i gymmeryd yn llythyrenol, wrth bregethiad Iuddew anadnabyddus, yn llawn mor rhyfeddol ac annaturiol a'r hanes am y pysgodyn. Ond cymmerwn yr oll fel dammeg, a cheisiwn edrych trwy y wisg allanol at y cnewullyn byw, ac fe'n gwaredir oddiwrth yr holiadau ydynt wedi blino y duwinyddion a phlant yr Ysgol Sul. Nid yw Duw yn Dduw un genedl yn unig nac un grefydd yn unig. Mae ei ofal yn estynedig at y pagan fel yr Iuddew. Cydnabyddir gofynion cydwybod yn gynt weithiau gan y pagan na chan bobl Dduw, Jerusalem y rhai ni ddarfu erioed roi ufudd-dod buan i lais proffwyd. Gosodir y ddinas o'r hon y daeth gwaeau i Israel i fyny fel patrwn i'r ddinas sanctaidd ei hunan. "Brodyr o'r un bru ydym;" brodyr oll, cyfranogion o'r un natur foesol a chrefyddol; plant yr un Tad, yr hwn y mae ei lais yn glywadwy mewn amrywiol ieithoedd, yn traethu yr un genadwri o gariad i eneidiau ei blant.

Darllener Jonah felly, ac fe'i ceir yn wrthdystiad Iuddewaeth ryddfrydig yn erbyn tueddiadau duwioldeb poblogaidd Israel; llafar meddwl goleuedig o'r hen amser yn cyhoeddi y gwirioneddau bendigedig o Daddoldeb Duw a brawdoldeb yr holl hiliogaeth ddynol, ac yn anadlu yr un yspryd ag a ddangoswyd gan Iuddew arall mewn amser llawer diweddarach:—"Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad."

H. N. (Cofiadur.)

## NODYNAU GWASGAROG.

Mawr y twrw sydd wedi bod yn ddiweddar o blaid cael y Gymraeg yn gangen bennodol o addysg yn ein hysgolion dyddiol. Nid, meddent, er mwyn cadw y Gymraeg yn fyw, yn gymmaint ag er galluogi y plentyn yn well i ddeall y Saesneg. Lles dyfodol y plentyn sydd mewn golwg—dyna ddylai fod mewn golwg. Yr ydys wedi ysgrifenu llawer er ategu yr olwg yma ar y pwnc, ac ychydig, os dim, i'r gwrthwyneb. Felly, wrth bob tebyg, fe fydd i'r pleidwyr—oblegyd y maent yn wresog iawn—lwyddo yn eu hamcan. Yr ydym wedi darllen y rhan fwyaf o'r hyn sydd wedi ei ysgrifenu ar y mater, ac yr ydym wedi ceisio gwneuthur hyny yn gwbl ddiragfarn; ond gyda'r canlyniad hyn, ein bod yn parhau o'r un farn ag o'r blaen, a hyny yw, nad help, ond rhwystr i wir les y plentyn fyddai gwneuthur y Gymraeg yn "bwnc pennodol" *yn ein hysgolion.* Cofier fod yr ysgolfeistri at eu rhyddid yn awr i ddefnyddio y Gymraeg fel cyfrwng i helpu'r plentyn, trwy egluro'r pwnc mewn llaw. Ni fydd rhagor o Gymraeg na hyn yn fy meddwl I yn golygu dim ond llai o Saesneg. Rhy fach o amser i iawn feistroli'r Saesneg sydd gan blant Cymry yn awr, fe fydd yn llai wed'yn. Diffyg mawr Cymru yw y diffyg sydd gartre', y diffyg o chwaeth ac awydd addysg ar yr aelwyd. Eisieu sydd, cael gyda'r rhieni i deimlo mwy o ddyddordeb yn addysg eu plant—i'w hannog a'u helpu. Cael rhieni chwaethus, hoff o ddarllen, ac o ddiwylliant cyffredinol, hyny a sicrha addysg uwch i'r plant. Ar aelwydydd rhieni Cymreig deallus, fe ddaw darllen ac ysgrifenu y fam-iaith mor naturiol ag yfed llefrith; *deallus*, cofier,—os bydd yno ragfarn ddall yn erbyn y Gymraeg, fe barheir mor anwybodus o'r pwnc ag yw mwyafrif offeiriaid ein gwlad y dyddiau presenol. Dysged plant Cymru y Saesneg, iaith yr huriau uchel, iaith y *roast beef* a'r *plum pudding*, ys dywed Kilsby—y Saesneg, heb anughofio y Gymraeg; ni wnaeth Dic-Shon-Dafyddiaeth erioed un lles i neb. Chwi ddysgwch y ddwy trwy ddarllen Yr Ymofynydd, a mynychu y capel yn rheolaidd—trwy deimlo dyddordeb deallus mewn pethau sy'n pasio; a hyn oll heb wneuthur y Gymraeg yn "specific subject" yn yr ysgol ddyddiol. Pwnc mawr ieuenctyd dros adeg y "Standards" ddylai fod cael meistrolaeth ar y Saesneg, fel na fyddont yn ol yn rhedegfa fawr bywyd. Y *training* a ga'r Cymro wrth feistroli'r Saesneg a'i galluoga i gadw yn ffrynt y frwydr, yn enwedig yn y meistroliad o unrhyw iaith arall; ond ei ddiffyg o Saesneg a'i gesyd ar ol bob amser, ac yn mhob man.

S. N. S.

---

### CANU EMYNAU.

Adroddir hanesyn am hen bregethwr, tua dechreu y canrif presenol, yn myned ar draws y wlad i werthu ei lyfr emynau, ac ar ei dro yn

dyfod at un o'r bobl dda hyny a elwir y Crynwyr. Cynnygiodd ei lyfr ar werth iddo. Atebodd hwnw nad oedd arno ddim o'i eisieu. Gwasgai y pregethwr, ac meddai'r Crynwr, "Nid ydym ni ddim yn canu emynau." "Beth?" ebe'r pregethwr, "ddim yn canu emynau! Onid ydych yn gwybod y byddant yn canu emynau yn y nefoedd?" "Os byddant," ebe'r Crynwr, "fyddan' nhw ddim yn canu dy emynau di yno!" Mor wahanol, onide, ydyw syniadau dynion! Gosodir allan syniad miloedd, y dydd presenol, am fwyniant nefoedd yn ngeiriau yr emynwr Seisnig:—

> Where congregations ne'er break up,
> And Sabbaths never end.

Tra mae miloedd, o'r tu arall, yn myned i'r cithafion gwrthwynebol, ac yn tybied fod y Sabbath ar y ddacar, fel y mae yn dygwydd yn rhy aml, a'r cwrdd, os dygwydd iddo fyned yn mlaen am awr a hanner, yn parhau yn rhy hir.

---

BEDYDD YR IESU GAN IOAN.

Ar y pedwerydd o'r mis diweddaf, bum I'n gweled darlun ar y pwnc uchod, darlun wedi ei gymmeryd yn y man a'r lle, darlun y bu'r awdwr dair blynedd ar ddeg yn gweithio wrtho. Mae wedi ceisio sylweddoli ar gynfas yr hyn a osodir allan yn y geiriau hyn:—"Yn y dyddiau hyny y daeth Ioan Fedyddiwr gan bregethu yn y diffaethwch. Yna yr aeth ato ef Jerusalem a holl Judea, a'r holl wlad o amgylch yr Iorddonen, a hwy a fedyddiwyd ganddo ef; a daeth yr Iesu o Nazareth yn Galilea ac a fedyddiwyd gan Ioan yn yr Iorddonen; ac yn ebrwydd wrth ddyfod i fyny o'r dwfr efe a welodd y nefoedd yn agored." Cymmer y bedydd le yn un o rydiau yr Iorddonen, a'r prif wrthddrych yn nghanol y pictiwr yw Ioan yn codi yr Iesu i fyny. Fe welir y dwfr yn amlwg yn cwympo oddiar y gwallt, &c., a gwyneb yr afon wedi ei aflonyddu. Ar yr aswy gwelir y dyrfa grybwylledig uchod o "holl Judea," &c., dosparth cymmysg iawn, o bob oedran ac o lawer cenedl, y milwr Rhufeinig wrth gwrs yn adgof o'r llywodraeth, yr Ethiopiad du yn nôd o gaethiwed. Gwelir yno lawer o bobl fawrion, a rhai o ddysgyblion Ioan. Mae'n amlwg eu bod yn cael eu meddiannu gan deimladau gwahanol. Mae golwg bryderus iawn ar rai. Mae y gwahanol wisgoedd yn rhoddi dyddordeb neilldual i'r darlun. Yn y tu cefn mae y coed yn ymddangos yn heirdd iawn, a draw yn y pellder fe welir copa Hermon yn wyn gan eira. Yr ochr arall i'r afon, ac yn yr ymyl, fe welir torf arall—teithwyr tua Jericho a Jerusalem efallai, gyda'u camelod, wedi aros i weled y weledigaeth; a thu cefn iddynt dacw fynyddau moelion Moab.

Yr oedd yn syn genym glywed fod rhai yn edrych ar y darlun oddiar safle enwadol—Annibynwyr yn gwahardd eu plant i fyned yn agos. Yr oeddynt drwy hyny yn colli gwers bwysig. Sicr yw fod gwaith fel

hwn, ag sydd wedi cymmeryd 13 mlynedd i'w orphen, yn werth sylw ac yn gyflawn o addysg. Enw'r arlunydd yw Mr. Goodwyn Lewis.

S. N. S.

---

LLINELLAU

*A gyfansoddwyd pan yn edrych ar fedd y diweddar Barch. W. E. Davies, o'r Cribin.*

Un gwael ei wedd, ond dewr ei fron, oedd William, gyfaill hawddgar;
Un hoff o ddysg, yn llenor coeth, un gwylaidd ac un moesgar.
Efe a'i ymdrechiadau hyf, tra'n nychlyd iawn ac egwan,
Fu'n ddiwyd a di-droi-yn-ol; o'i gystudd fyth yn cwynfan.

Dau Wilym 'nawr mewn dystaw fedd, yn Mynwent Llwynrhydowen,
Orphwysant yn y graian mân, a'u llafur wedi gorphen.
Wrth wel'd y fan, yr af yn brudd: eisteddaf wrth y beddrod,
A'm dagrau wlych y blodau heirdd sydd yn addurno'r tywod.

Ffarwel, gyfeillion mâd, ffarwel! byth mwy ni chaf eich gweled;
Eich glân weithredoedd fydd gerbron y byd, fel ffrwythau aeddfed
O lafur didwyll dyddiau blin mewn gormes hallt i'r galon,
Ond mynych deimlo dan y baich fod byw yn hoff i'r gwron.

D. Lloyd Evans,
*Tachwedd* 4, 1886. Ysgol y Bwrdd, Pontshan.

---

YR ORGAN NEWYDD.

Mewn eglwys fechan mewn pentref bychan gerllaw Brighton, lle 'r oedd y gynnulleidfa yn analluog i dalu dyn am chwareu yr *organ*, darfuwyd, yn ddiweddar, brynu *organ* oedd yn medru chwareu ei hunan, offeryn cryno, *compact*, wedi ei addasu yn dda at y pwrpas, ac wedi ei drefnu i chwareu deugain o wahanol donau. Fe dderbyniodd y sexton, neu y clerc, y cyfarwyddiadau angenrheidiol, sut i'w osod ar waith, a sut i'w stopio; ond yn anffodus annghofiodd y rhan olaf o'r gorchwyl; ac wedi canu pedwar pennill o emyn o flaen y bregeth, methodd yn deg â stopio yr *organ*, yr hwn a barhaodd yn y blaen yn chwareu dau bennill yn rhagor. Yna, fel yr oedd yr offeiriad yn gorphen y geiriau "Let us pray," clic, ebe'r *organ*, a bant ag e'n chwareu tôn arall. Eisteddodd yr offeiriad yn amyneddgar nes gorphen y dôn, ac yna, adnewyddodd ei eiriau blaenorol, "Let us pray," pan y cliciodd yr *organ* drachefn, ac y cychwynodd dôn arall etto. Gwnaeth y sexton ac ereill bob ymdrech i gael gafael yn y *spring*, ond yn hollol ofer, ni fedrai neb ddystewi yr *organ*. Felly gorfuwyd dewis pedwar o wyr cedyrn y gynnulleidfa i osod eu hysgwyddau o dan yr offeryn anystwyth ac anufudd, ac i'w gludo yn grwn i waered trwy yr eglwys, tra 'r oedd o hyd

yn parhau i chwareu, ac allan trwy y drws i'r fynwent—lle y cafodd lonydd i fyned yn y blaen â'i *game*, yn clicio ac yn chwareu y naill dôn ar ol y llall, nes i'r oll, ddeugain o honynt, gael ei gorphen!

---

MAE UNDODIAID YN CREDU

1. Mewn un Duw, y Tad.
2. Yn y ddyledswydd o weddi ac addoliad.
3. Fod y Tad yn ein caru.
4. Nad yw Duw dderbyniwr wyneb.
5. Yn un Arglwydd Iesu Grist.
6. Iddo ddyfod i'n gwaredu rhag pechod.
7. Mai Efe ydyw ein Hathraw Mawr.
8. Mai Efe yw y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd.
9. Mewn dyn wedi ei wneuthur ar ddelw Duw.
10. Ein bod ni oll yn frodyr.
11. Fod cariad yn gyflawniad y gyfraith.
12. Mewn ad-daliad cyfiawn.
13. Mewn edifeirwch a maddeuant pechodau.
14. Y dylem gadw gorchymynion Duw.
15. Mewn bywyd dyfodol anfarwol.
16. Fod marwolaeth yn osodiad Duw.
17. Fod yn nhy ein Tad lawer o drigfanau.
18. Mai Sanctciddrwydd a Duwioldeb yw y parotoad goreu ar gyfer nefoedd.

---

"YR YMOFYNYDD."

Mr. Gol.,—Yr wyf yn cynnyg yr ychydig linellau hyn, os gwelwch hwynt yn deilwng, i'r Ymofynydd. Dymunaf flwyddyn newydd dda i chwi a'i holl berthynasau. Yr wyf fi yn ei dderbyn ac yn ei ddosparthu, ryw nifer o honynt, oddiar ei ddechreuad, yn Mhenybont-ar-Ogwr, hyd yn bresenol. Yr wyf wedi cymmeryd llawer o drafferth, ac wedi cael peth colled; ond y mae y pleser a'r hyfrydwch wyf wedi ac yn ei gael drwyddo yn fwy o lawer. Yr wyf wedi ei ddosparthu i lawer o Drindodiaid. Cymmerent ef ar y cyntaf, braidd, er fy mwyn I, ond derbyniant ef yn awr er eu mwyn eu hunain. Gwna Yr Ymofynydd les mawr yn ei gylch. Paham lai? Nid trysorau sydd yn darfod bob wythnos ydynt ei drysorau ef. Mae dynion goleufarn a dysgedicaf yr oes yn britho ei dudalenau â'u cynnyrchion—mewn Cymraeg gloew hefyd. Cawn ynddo seryddiaeth, daearyddiaeth, natur, a datguddiad. Cawn ynddo hanes bywyd pur a dysglaer yr Iesu, a chariad a Thadoldeb Duw, er lles i ni yn amserol a thragwyddol. Cynnwysa bregethau, gweddiau, ac hanes marwolaethau, a rhydd hefyd hanes y cyfarfodydd chwarterol a blynyddol, &c. Pwy bynag

sydd yn ei gadw ar glawr, ac yn ei rwymo, bydd yn llyfr a gaiff ei ddarllen yn yr oes a ddaw. Nid peth i bapyro parwydydd yw Yr Ymofynydd, fel y papyrau wythnosol sydd yn cael myned i bacio bwndeli, a rhywbeth o'r fath; ond gellir ei ddarllen drachefn a thrachefn, a bydd ei ddarllenwyr yn ei gael yn llawn o newyddion da o lawenydd mawr. Gobeithiwyf y bydd iddo barhau i ddyfod yn newydd ei wisg bob mis etto. Dyna fy nhystiolaeth I am Yr Ymofynydd. Y mae yn hyfrydwch mawr i mi yn awr, yn fy hen ddyddiau. Yr wyf yn methu myned i'r cwrdd ond yn anaml iawn; ond yr wyf yn dysgwyl ei amser cyn y delo bob tro.

Oddiwrth hyn chwi welwch, Mr. Gol. a gohebwyr, y fath olwg sydd genyf fi ar Yr Ymofynydd. Yr wyf fi yn credu ei fod wedi ymdrechu ymdrech deg dros oleuo'r byd. Os gorphena ei yrfa, y mae wedi cadw'r ffydd, a diamheu genyf fi na chaiff goron cyfiawnder yn y diwedd. Carwn weled ryw fardd galluog yn canu ei glod mewn rhyw rifyn.

*Castell, Rhagfyr* 13, 1886. D. Jones.

---

CUDDIO'R GRAITH.

Meddai pregethwr, wrth sylwi ar barodrwydd y gwahanol enwadau Protestanaidd i nodi diffygion yn hytrach na rhagoriaethau eu gilydd: "Pan geisiwyd gan arlunydd enwog i baentio Alexander Fawr, fel ag i roddi darlun perffaith o'r gorchfygwr Macedonaidd, teimlodd un anhawsder. Yr oedd Alexander yn un o'r rhyfeloedd wedi ei glwyfo, ac yr oedd craith ar ei dalcen, ac, ebe'r paentiwr, 'Os gadawaf y graith ar y talcen, bydd yn annghymmeradwy gan edmygwyr y brenin; ac os gadawaf y graith allan, ni fydd y darlun yn berffaith—beth gaf fi wneuthur?' Dyma wnaeth,—darluniodd yr ymherawdwr fel yn pwyso ar ei benelin, a'i fys ar ei dalcen ac yn cuddio y graith, ond, i bob ymddangosiad, yn anfwriadol. Oni allem ninau ddarlunio ein gilydd megys â bys cariad yn cuddio'r graith, yn lle darlunio'r graith yn ddyfnach, ac yn dduach nag yw mewn gwirionedd? Oni all Cristnogion ddysgu oddiwrth baganiaeth y wers hon o gariad a charedigrwydd?"

---

MARWOLAETH CYFEILLION.

Golwg meidrol meddwl dynol sy'n rhy wan i weled trwy
Ragluniaethau'r Annherfynol, pan ein siomir ganddynt hwy;
Etto'r enaid a gyssurir yn y gred try'r oll yn gan;
Croesau trymion a eglurir gartre', draw, yn Ngwynfa lân.

Siomedigaeth a'i flinderau, gofid dwys, a chystudd mawr,
Gwasgfa tlodi a'i lwmderau, yn nglyn angeu deffir lawr;
Yn y storm a'r ddrychin arw, wedi blino'n wael ein gran,
Dedwydd meddwl cawn, 'rol marw, bawb gydgwrdd yn Ngwynfa lân.

Addysg Crist fo'n ein cyssuro wrth roi'n ffryndiau yn y glyn;
Wrth ein drysau mae o'n curo, i'n dyddanu 'ngwyneb hyn;
Peidiwn a galaru'n ynfyd—byddwn ffyddiog ynddo Ef;
Ni gawn etto gwrdd mewn gwynfyd yn nhrigfanau'n Tad o'r nef.

CYNONWYSON.

---

YMPRYDIO.

PEIDIWCH dibrisio synwyr cyffredin, mae yn werthfawr iawn. Cymmerai John Wesley olwg synwyr cyffredin ar yr arferiad o ymprydio. Dywedai y gallai fod yn ddefnyddiol weithiau yn lle meddyginiaeth y doctor; ond am ei fod yn rhywbeth neillduol gymmeradwy gan Dduw, gallai dyn yn llawn mor resymol dybied y gwnaiff myned yn droednoeth ar amser rhew caled fod o wasanaeth i'w enaid crynedig, a thybied ei fod un cam yn mhellach ar ei yrfa ysprydol wrth fwyta cig pysgodyn yn lle cig eidion neu gig maharen.

---

Y PARCH. J. PAGE HOPPS.

Tua saith mlynedd yn ol, dechreuodd y Parch. J. Page Hopps, o Leicester, gynnal cyfarfodydd arbenig ar gyfer y rhai na cheir mo honynt un amser yn moddion gras. Llogodd un o'r adeiladau mwyaf yn y dref, yn yr hon y gallai tua phedair mil o gynnulliad eistedd yn gyssurus am yspaid pennodol; a pharhaodd i wneyd hyny tua'r pryd hwn bob blwyddyn byth er pan y dechreuodd. Yn y cyfarfodydd, efe a draddodai anerchiadau difrifol, y rhai a wrandewid gyda'r astudrwydd mwyaf. A phan oedd efe yn dechreu ar yr wythfed gyfres, y Sabbath diweddaf, yr oedd uwchlaw pedair mil yn bresenol—oll, gydag ychydig eithriadau, yn wŷr a gwragedd nad arferent byth fyned i eglwys na chapel! Cydnabyddir dylanwad moesol llafur Mr. Hopps gan bawb sydd wedi talu sylw iddo. Yr hyn y gresynir mwyaf o'i herwydd ydyw, mai efengyl dlawd—ie, dlawd iawn—sydd gan Undodwr o'i fath ef i'w phregethu.—O'r *Faner*.

---

GWERTH MOESOL.

Bum mewn dadl yn ddiweddar gyda gweinidog y Bedyddwyr gerllaw Llandain. Rhoddodd eglurhad o gyfiawnder athrawiaeth yr Iawn. Darfu iddo fechnio dyn unwaith fel dyn gonest, ac aeth hwnw yn fethdalwr. Trodd allan yn gymmeriad gwael, ac meddai fy ngwrthwynebydd, "Yr oeddwn mewn cyfiawnder dan orfod i dalu dyledion y methdalydd." Cododd dyn cloff i fyny yn union yn nghanol y dorf, a gofynodd i'r cadeirydd am genad i ofyn cwestiwn. Rhoddwyd cenad iddo lefaru, a dywedodd, "Yr ydych yn dywedyd fod Iesu Grist wedi talu ein dyled, ac nad ydym ond i gredu hyn, ac yna, yr ydym

yn gyfawn yn nghyfnewnder Crist. Yn awr, Syr, talasoch chwi ddyledion dyn cenedlig a dalfrwyth er mwyn cadw eich gair. Yr wyf yn gofyn i chwi a teilli lon o'r adyn hwnw yn llawn cymmaint *scamp* wedi i chwi lain ei dlyled ag o'r llaen yn ngolwg y ddeddf foesol." Ni chafwyd un ateb.

---

# Manion a Hanesion.

*Dywedir* fod Eglwys Hindwaidd Aryn Samaj, yr hon sydd a *Branch* yn Llundain.

Mae yn dangosiadwyddi Genedlaethol i helpu y cyfryw ydynt mewn angen am help, yn ol eu cyfleusdra. Gall fod hefyd yn dangosiadwyddi Genedlaethol i roddi help y rhai sydd mewn angen am gymmorthwy.—*Cenedlaethwr.*

## YR EIRA.

Fe'r dwg i lawr balm—yw eira,
Gilion ser, wegada dlina;
Yn ased yr flurtadau
Gwaga lur i gwasgod wau.

Hir ni saif ar dir brau ia,—wanth yr hin
A thes haul a'i nwdia
Dw'r redd hedbrwnad sera,
Yn ddiw'r yn y diwedd i.

—*Ifwrnwg.*

Nid yw lyn hyth yn cael allan unrw ychydig mae yn wybod am farwolaeth teulu ieuad, nes bydda'r wraig yn ceisio gwaddiedw ei hgod ar y teiliy, ac ebryna fod y lleoir hir awdl sagwedhar yn cael ei dwyn, ma fydda hi yn mynedd i ystadell arall i edrych trwy y cwdyn d'r caryhau.

Pan fydda hynna yn peidio bod yn chwarwddiad nes dydd yn hen, yn ychwanegiad yn mynedd i wreidhar ddoeth i Ddaw o weddiliwn y dadd.

Dylai bywyd yn mhob ffurf fod yn werthfawr gwerthfawr ac yn cherisiad y mae y Dwr yn dalwa i gagla pet tamaid i hapyr ddeda i w dwedd, nid y dadlau fod gaw Dnw wedi ei ysgrifenu arno.—*Jean Paul.*

CEREDIGION.—Dydd Lun, yr 11 o Ragfyr cynnaliwyd cyfarfod i sefydlu Mr. Daniel Morgan, Llwyddiant i Ddeg Dosbarthiadau fel gweinidog ar Eglwys y Dubin. Pregethwyd yn y boreu gan y Parchn. W. James, S. A. a T. Thomas, y diweddaf yn rhoddi'r charge i'r gweinidog. Yn y prydnawn, pregethwyd gan y Parchn. B. C. Jones, yr hyn a draddodiadd y *charge* i'r eglwys, a W. Rees. Yn yr hwyr, pregethwyd gan y Parchn. B. C. Davies (A), a J. Davies, Allltyphca. Er gwaethaf y diwrnod anffafiad a gafwyd, yr oedd y cynnulliadau yn lluosog dros ben, yn enwedig yn y prydnawn a'r hwyr. Cafodd pawb eu bodlonai yn mhob ystyr, a gobeithiwn fod y cyfarfodydd wedi cyrraeu nerth ac ysgogiadau i'r gymmuleidfa a'r gweinidog.

CYMMRODOR.—Tachwedd 27ain, cynnaliodd eglwys Gellionen, gyngherdd llwyddiannus iawn yn Ysgoldy y Bwrdd, Craigrhubanus, yan yr oedd yr ystadell yn orlawn. Cadeiriwyd yn ddeheuig dros ben gan Mr. L. H. Thomas, Llansamlet, un o ben fyfyrwyr y Gellionen. Arweiniwyd gan y fraeth a'r deniol faedd L. Hopeyn, Cathelyd. Cymmerodd cantorion lleol ran bwysig, yn y cyfarfod a chafodd Mr. Thomas Maesgwyn, Aberdar, fel Perdonydd a'r Parch. W. J. Davies, Dowlais, fel llywydd dderbyniad brwdfrydig gan y dorf. Mae tunes eno yw dymuniad eglwys Gellionen.

Dywedir fod y Baroness Burdett-Coutts wedi rhoi mewn ewyllysiau bedair miliwn o bunnau.

## GWRAIG DDA.

Yn fedi dawel a llwyd,—ei gwr
Wna gwen drwy i lywyd;
Un hydd yn hwylfgar bedyd,
Yw gwraig dda fel haf o hyd.

Mae yn a hir anynnedd,—wrth ei bodd,
Gwerth y byd llawn chinwedd,
A dirwed hyd y diwedd,
Yn ol hyn sa nefol bedd.

Dyffryn Ceridin. *B. Davies.*

Mae y dyn nad oes ganddo ddim i ymffrostio ynddynt ond ei hynafiaid enwog yn debyg i'r bytaten—â'r unig ddaioni yn perthyn iddo *dan y dywarchen.*

Heb allu cyfarwyddol rheswm, nid oes yr un rhinwedd nas dichon gael ei throi yn beehod.

Dichon gair annghariaidd syrthio yn rhwydd ddigon dros y gwefusau, ond nis dichon chwech o geffylau gwaith ei lusgo yn ol drachefn.—*Diareb Chineaidd.*

Nid oes dim mor felus a dyledswydd, ac y mae holl bleserau melusaf bywyd yn dyfod yn nghysgod dyledswyddau wedi eu cyflawnu.

Prawf goreu llygad yw llythyren fân; prawf goreu glendid ystafell yw glendid y corneli; a phrawf goreu bywyd yw ymchwiliad manwl i weithredoedd cyffredin oriau cyffredin. Os deil y prawf hwn, mae yn bur yn wir.

DIFFYG CYSGU.—Rheol dda ydyw peidio blino'r meddwl yn nghylch hyny, a pheidio dywedyd, "Yr wyf yn ofni nad alla' I ddim cysgu!" Meddyliwch fod y gorphwys a geir trwy orwedd yn eich llawn hyd, a llaesu pob gewyn. yn foddion gwerthfawr i adchwelyd y galluoedd corfforol, hyd y nod os na ddwg cwsg. Y mae *bath*, neu daflu dwfr oer dros ran isaf yr asgwrn cefn yn tawelu'r ymhenydd. Ceir fod ychydig fwyd, os mewn angen, yn feddyginiaeth dda; ac y mae tê sinsir yn fynych yn oeri'r ymhenydd, trwy wresogi'r ystumog, ac yn y fel hyny, yn dwyn cwsg.

---

# Marwgofion.

Medi 19eg, Mr. Noah Davies, Gwernllwyn, gynt o Lachartfach, yn 69 oed. Yn marwolaeth Mr. Davies, gallwn ddweyd yn ddibetrus, fod un o gedyrn Israel wedi syrthio. Bu yn un o golofnau mwyaf cedyrn hen eglwys barchus y Gellionen am yspaid chwarter canrif. Llanwodd wahanol swyddi cyssylltiedig â'r eglwys gyda boddlonrwydd digymmysg. Fel arweinydd y gân, cyn i gyfundrefn y Tonic Solffa ddod i ymarferiad, gweithiodd yn egniol. Yr oedd yr hen frawd wrth fodd calon pan yn canu hen donau cyssegredig. Cofus gan ysgrifenydd y llinellau hyn dreulio amser difyr yn ei gwmni ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, gyda'r gwaith o ganu hen dônau. Yn wir, yr oedd y brawd yn adfywhau wrth y gwaith, nes peru i'w berthynasau a'i ffryndiau gredu ei fod yn gwella, ond nid felly yr oedd i fod. Fel *trustee*, yr oedd yn awyddus iawn i gael y capel a'r ysgoldy yn ddiddyled. Yr oedd bron bob amser yn bresenol yn y gwahanol oedfaon, o'r rhai gwelsid ef yn dychwelyd gyda lluaws o wahoddedigion i fwynhau ei ddanteithion gartref ar achlysuron neilldual, megys cyfarfodydd blynyddol, &c., yr oedd ei dŷ yn orlawn o bobl. Gwyn fyd na fuasai rhagor o'i fath yn ein heglwysi. Medi 23ain, cludwyd ei ran farwol i gladdfa Gellionen, pryd yr oedd torf luosog yn bresenol i dalu y gymmwynas olaf iddo. Gwasanaethwyd ar yr achlysur pruddaidd gan y Parchedigion J. Evans, Onenfawr, a W. J. Davies, Dowlais. Traddododd yr olaf bregeth angladdol iddo Hydref 23ain. Gadawodd y trancedig weddw a thri o blant i alaru ar ei ol, y rhai sydd yn gwneyd eu goreu gyda'r achos da yn y Gellionen. Bydded iddynt sugno eu cyssur oddiwrth y ffaith fod yr Hwn oedd yn canu, "Blinais, blinais, ar y wlad lle mae pechu," yn awr yn y nef yn byw.

Hydref 31, yn 29 oed, ar ol cystudd byr, Sarah, anwyl wraig David Evans, gof, Ciliau Aeron. Gadawodd briod i deimlo hiraeth a cholled mawr ar ei hol, a dau blentyn bychan i ofalu am danynt. Gadawodd hefyd dad a mam dirion, brodyr a chwiorydd mewn galar. Nerth a gaffont oll i ymostwng yn dawel i drefn yr Hwn ni wna gam a gwr yn ei fater. A bydded i'r tad gael nerth yn ol y dydd i fagu a dwyn y rhai bychain i fyny yn ofn yr Arglwydd. Ar ddydd yr angladd pregethodd W. Rees, Rhydygwin, yn y tŷ, a chladdwyd yn mynwent Ystrad. Addewidion yr efengyl fyddo yn gyssur i'r perthynasau oll.

Tachwedd 26, yn 77 oed, Elizabeth, gweddw y diweddar Evan Davies, Blaenaugwenog, Llanwenog, Ceredigion. Ni wnaeth y blaenaf oroesi yr olaf ond rhyw flwyddyn ac wyth mis. Mrs. Davies oedd yr olaf yn fyw o blant (saith mewn nifer) Thomas a Margaret Jenkins, gynt o Llawrcwrt, Llandyssiliogogo. Yr oedd Mrs. Davies a'i phriod yn agos yr un oed;

a chydgariasant yr iau yn ystod eu bywyd priodasol yn hapus iawn. Digonwyd hwynt nid yn unig ag hir ddyddiau, ond â llwyddiant bydol tuhwnt i'r mwyafrif o'u cyfoeswyr. Ni olygir fod Rhagluniaeth wedi bod yn fwy ffafriol iddynt hwy nag i ereill, ond yn unig eu bod hwy wedi cydweithio â Rhagluniaeth gyda mwy o fedr, diwydrwydd, a chynnildeb. Mae ar eu hol wyth o blant oll mewn llawn oedran, oll wedi priodi namyn dau, ac oll yn rhodio llwybrau llwyddiant fel eu rhieni o'u blaen. Claddwyd Mrs. Davies y dydd Mercher canlynol yn mynwent capel Hafod—capel y Bedyddwyr. Pregethodd Mr. Phillips, y gweinidog, yn y tŷ annedd, wedi darllen a gweddio yn gyntaf gan y Parch. Mr. Davies o Alltyplaca. Gwasanaethwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parchedigion Evans, Aberduar (B.), a Williams, Rhydybont (A.). Nid yn aml y gwelwyd cynhebrwng mor lluosog a pharchus. Bydded y plant yn ddiolchgar am oes cyhyd i dad a mam a wnaeth gymmaint drostynt.

Tachwedd 28ain, David Henry, mab John ac Elizabeth Jones, New Tredegar, gynt o Gwmbargoed, Dowlais, yn 18 oed. Ni chafodd ein cyfaill ieuanc ei gystuddio. Yr oedd yn iach, fel arfer, yn myned i orphwys yn yr hwyr, ond cyn y boreu cyffyrddwyd ag ef gan fys Duw, ac efe a hunodd. Tua thri mis yn ol, yr oedd genym y gorchwyl galarus o gofnodi marwolaeth ei chwaer, ac yn ddiamheu, fe ymddengys troion Rhagluniaeth yn ddyrys i'r rhieni trallodus yn nygiad ymaith eu dau blentyn mor agos at eu gilydd. Duw a dymhero y gwyntoedd croesion yma i fod o les a bendith iddynt. Dydd Mawrth canlynol, dygwyd y corff gyda'r trên i'r Cefn, a chladdwyd yn mynwent Hen Dy Cwrdd. Gwasanaethodd y gweinidog.

Tachwedd 12fed, Anne, anwyl briod Evan Evans, Shop, Llanwnen, yn 59 oed. Ni fu yn glaf ond prin dau ddiwrnod, ac nid oedd neb yn meddwl fod ei diwedd mor agos. Yr oedd yn un a fawr gerid gan bawb a'i hadnabyddai, a cheir colled dirfawr ar ei hol yn nghymmydogaeth Llanwnen. Yr oedd bob amser yn barod i wneyd yr hyn a allai o ddaioni, a gellir dweyd am dani gyda phriodoldeb neilldduol, "yr hyn a alloed hon hi a'i gwnaeth." Y mae yn galed, yn wir, i ymadael â'r rhai sydd yn anwyl yn ein golwg, ond gobeithio y caiff ei phriod a'i hunig fab, a'r perthynasau oll, nerth i ymdawelu o dan yr amgylchiad, gan ymddiried fod pob peth er daioni. Dydd Mawrth canlynol, daeth tyrfa anarferol o luosog yn nghyd i hebrwng ei gweddillion marwol i fynwent Eglwys Llanybyther. Pregethwyd yn y tŷ gan Mr. Morris, offeiriad Llanwnen, a gweinyddwyd wrth y drws gan Mr. Davies, Alltyplaca.

Rhagfyr 6ed, yn 40 oed, David Davies, Cwmmynach, plwyf Llanbedr, ar ol hir nychdod a gwendid, yr hyn a ddyoddefodd yn hynod o amyneddgar. Gadawodd briod anwyl, yr hon a fu dirion iawn iddo yn ystod ei afiechyd hir, a dau blentyn bychan mewn hiraeth ar ei ol. Yr oedd yn ddyn ddiniwed, ac a gerid gan bawb trwy y gymmydogaeth, ac yn aelod rheolaidd o eglwys y Cribin, lle teimlir colled ar ei ol. Ar ddydd ei angladd daeth tyrfa luosog i ddangos eu cydymdeimlad. Pregethodd y Parch. W. Rees, Rhydygwin, yn y tŷ, cyn ei hebrwng i fynwent capel y Cribin (yr ail i gael ei gladdu yno), lle yr oedd wedi gorchymyn i gael ei gladdu. Yn y capel, darllenodd a gweddiodd y Parch. D. Evans, y gweinidog. Ar lan y bedd siaradodd y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Tad y weddw a'r amddifaid fyddo yn noddwr i'w briod a'r rhai bychain.

Rhagfyr 8fed, Mr. Morgan Richards, Gadlys Road, Aberdar, yn 65 oed. Cafodd ei gystuddio am flynyddoedd, yn benaf gan glefyd y gweithiwr tanddaearol, y fogfa, a thrwy yr oll bu yn ffodus i gael pob tynerwch oddiar law ei wraig a'i blant, y rhai y mae ganddynt y cyssur i feddwl yn awr eu bod wedi gwneuthur eu goreu fod ei ddyddiau olaf yn esmwyth. Dyn diwyd, gweithgar, diniwed, y bu Morgan trwy ei oes. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan weinidog yr H.D.C. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Rhagfyr 13eg, Catherine, anwyl wraig Mr. Thomas Hopkin, Mount Pleasant St., Aberdar, yn 39 oed, gan adael ar ei hol wyth o blant, rhai yn fan iawn, i alaru eu eu colled anadferadwy. Yr oedd Mrs. Hopkin yn wraig ddiwyd a gweithgar, yn fam dyner a gofalus, yn gymmydog serchog a chymmwynasgar, ac yn aelod selog yn yr H. D. C.; ac fe welir eisieu ei phresenoldeb hawddgar yn yr holl gyssylltiadau yma. "Mae t'wyllwch a chymmylau'n toi dybonion doeth ein Rhi." Gwasanaethwyd yn yr angladd gan R.J.J.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

## AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—M.J., London; D.T., Lantwit Major; E.P., Glyncorrwg; J.J., Quakers' Yard; D.R., Aberfan; G.J., Bank; W.J., Pitcot Cottage; T.J., Danffynnon; Mrs. H., Gilfach Goch; Miss J., Wern; P.P., Rhydypare; J.J., Tonypandy; Jones Brothers, Aberavon; T.Ll., Porthcawl; T. D., Dolbwba; E.J., Carmarthen; W.G., Pontyberem; D.T., Prengwyn.

---

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

---

## YR YMOFYNYDD.

Dymunwn flwyddyn newydd dda i'r cyfeillion oll, a thaer geisiwn am barhad o'u ffyddlondeb ychydig bach yn hwy. Mwy o undeb a chydweithrediad sydd yn eisieu arnom.

---

## EMYNAU O FAWL A GWEDDI.

Anfonir copi (*specimen*) rhwym yn rhydd gyda'r *post* am 2s.

---

## PREGETHAU Y PARCH. W. THOMAS, M.A.

Dymunwn alw sylw at y gyfres a ddechreuodd gyda rhifyn Awst, a byddwn yn falch i gael anfon copïau ychwanegol at ein dosparthwyr.

---

CYHOEDDIR TUA DIWEDD Y FLWYDDYN

# "BANNAU FFYDD UNDODWR,"

Wedi ei gyfieithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

---

Darllener y sylw a wneir o'r llyfr yn y rhifyn cyn y diweddaf. Yr ydys yn gobeithio na fydd y pris ddim dros 6c. Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

---

## LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(AIL ARGRAFFIAD),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

PRIS—DWY GEINIOG.

Gwerthir 100 o'r uchod yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.